# Polisi'r Gymraeg

## Canllawiau i ganolfannau

Fersiwn 1.1

Addaswyd ddiwethaf 16-Chwefror-2026

At ddefnydd allanol

## Hanes diwygio'r ddogfen

| Fersiwn | Crynodeb o’r newid | Dyddiad cymeradwyo |
|---|---|---|
| 1.1 | Wedi ychwanegu adrannau newydd: cyflwyniad, asesiad a ffynonellau gwybodaeth eraill | Chwefror 2026 |
| 1.0 | Wedi creu’r ddogfen | 2012 |

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 3**

1.1. Cefndir ........ 3

1.2. Cwmpas ........ 3

**2. Cynnyrch a Gwasanaethau ........ 3**

**3. Ffynonellau eraill o wybodaeth ........ 5**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i ganolfannau yng Nghymru am y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i gynnig amrywiaeth o gymwysterau ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi siaradwyr Cymraeg. Er ein bod yn ceisio darparu ar gyfer dewis iaith dysgwyr, nid yw bob amser yn ymarferol cynnig pob cymhwyster yn Gymraeg. Rydym yn darparu opsiynau Cymraeg ar gyfer cymwysterau ar sail:

- anghenion dysgwyr a chanolfannau,
- y galw, ac
- ein haelodau cyswllt, ac adnoddau eraill sydd ar gael.

Mae ein darpariaeth o gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i ddod o hyd i gyfleoedd i ehangu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg.

## 1.1. Cefndir

Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru
- gwneud darpariaeth ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg
- gwneud darpariaeth ynghylch safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg
- sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwilio i achosion posibl o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

## 1.2. Cwmpas

Bydd City & Guilds yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, asiantaethau perthnasol, canolfannau a chyrff dyfarnu eraill i hyrwyddo mentrau cenedlaethol.

Mae City & Guilds yn annog canolfannau i ddarparu cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd yn monitro lefel y gweithgarwch yn ein canolfannau.

# 2. Cynnyrch a Gwasanaethau

| Maes | Manylion |
|---|---|
| Cynnyrch | Bydd City & Guilds yn parhau i ddatblygu a darparu deunyddiau Cymraeg i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth a nodir yng nghynllun |

| Maes | Manylion |
| --- | --- |
| | strategol blynyddol y Gymraeg. Bydd City & Guilds hefyd yn ymateb i geisiadau gan ganolfannau am ddeunyddiau Cymraeg ychwanegol, a byddwn yn asesu pob cais yn ôl yr angen. |
| Deunyddiau Asesu | Bydd City & Guilds yn darparu deunyddiau asesu dwyieithog, er enghraifft; llawlyfrau, llyfrau log, a phapurau arholiad i gefnogi meysydd blaenoriaeth. |
| Asesiad | Ar gyfer asesiadau lle mae City & Guilds yn darparu asesydd allanol, bydd City & Guilds yn gwneud pob ymdrech i recriwtio aseswyr sy'n siarad Cymraeg. |
| Sicrhau Ansawdd | Fel corff dyfarnu, mae City & Guilds wedi sefydlu prosesau ac arferion sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnal asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Bydd City & Guilds yn sicrhau ansawdd y cyfieithiadau, ac yn monitro'r nifer sy'n astudio cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd City & Guilds yn darparu gwybodaeth i'r awdurdodau rheoleiddio ar gais. |
| Sicrhau Ansawdd Allanol | Bydd City & Guilds yn darparu cymorth i ganolfannau ar gyfer mynd ati'n allanol i sicrhau ansawdd asesiadau a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Bydd City & Guilds yn gwneud pob ymdrech i recriwtio Sicrhawyr Ansawdd Allanol dwyieithog pan welir bod angen hynny. |
| Tystysgrifau Dwyieithog | Bydd City & Guilds yn cynhyrchu tystysgrifau dwyieithog ar gyfer dysgwyr sydd wedi ymgymryd â'u hasesiad cyfan, neu ran o'u hasesiad, drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i ganolfannau ofyn am dystysgrifau dwyieithog o leiaf bedair wythnos cyn eu hawlio.<br>Cofiwch fod y tystysgrifau dwyieithog a gynhyrchir gan City & Guilds yn adlewyrchu gallu'r unigolyn i fodloni safonau gofynnol y cymhwyster penodol, ac nad ydynt yn arwydd o allu'r unigolyn o ran y Gymraeg. |
| Gwasanaethau i Gwsmeriaid | Bydd City & Guilds yn parhau i ymateb i'w gwsmeriaid yn Gymraeg pan dderbynnir gohebiaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar, pan fydd angen.<br>Bydd City & Guilds yn gwneud pob ymdrech i hysbysebu am staff dwyieithog, ac i recriwtio staff dwyieithog. |
| Marchnata | Bydd City & Guilds yn parhau i ddarparu:<br>• deunyddiau hyrwyddo dwyieithog<br>• dogfennau i roi gwybod i gwsmeriaid am yr adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg |

# 3. Ffynonellau eraill o wybodaeth

Mae gwybodaeth fanwl am y polisi hwn ar gael yng Nghynllun Datblygu'r Gymraeg fel rhan o'n Cynnig Cymraeg.

| Maes | Manylion |
|---|---|
| Tudalennau Cymru | • Tudalen City & Guilds Cymru<br>• Tudalen ILM Cymru |
| Catalog o Adnoddau Cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg | Mae ein catalog yn rhestru deunyddiau asesu dethol a dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â chymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg. |
| Manylion cyswllt | I gael rhagor o wybodaeth am gynnyrch a gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, cysylltwch â:<br>Siân Beddis, City & Guilds - translation@cityandguilds.com |

## Cysylltwch â ni

City & Guilds Ty Giltspur
5-6 Stryd Giltspur
Llundain, EC1A 9DE

**customersupport@cityandguilds.com**

**01924 930 800**

**www.cityandguilds.com**

### Am City & Guilds

City & Guilds yw'r partner sgiliau byd-eang, sy'n grymuso pobl, sefydliadau ac economïau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i dyfu. Gyda bron i 150 mlynedd o arbenigedd dibynadwy, rydyn ni'n cefnogi pobl i gael gwaith, yn eu helpu i ddatblygu yn y gwaith a symud i'r swydd nesaf.

Rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraethau, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, colegau a rhanddeiliaid yn y diwydiant i ddylunio a darparu hyfforddiant, cymwysterau, asesiadau a chyflawniadau o ansawdd uchel sy'n arwain at ddilyniant gyrfa ystyrlon. Rydyn ni'n deall y cyswllt pellgyrhaeddol hwnnw rhwng datblygu sgiliau, symudedd cymdeithasol a llwyddiant. Mae ein hatebion yn cwmpasu sectorau hollbwysig gan gynnwys adeiladu, peirianneg, trafnidiaeth, ynni a thrydan, ac yn gwasanaethu dros filiwn o ddysgwyr bob blwyddyn.

Drwy ein portffolio cynhwysfawr o frandiau a rhwydwaith byd-eang dibynadwy, rydyn ni'n gosod safonau ar draws y diwydiant ar gyfer sgiliau technegol, ymddygiadol a masnachol i wella perfformiad a chynhyrchiant. Rydyn ni'n credu y gallwch chi gyflawni eich potensial - ac rydyn ni yma i helpu i wireddu hyn.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, ac mae'n cadw'r hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

©2025 City & Guilds Limited (Rhif cofrestru 16513878). Cedwir pob hawl. Mae City & Guilds yn un o nodau masnach City & Guilds Limited.